ar sail angen gwybod, i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi'r ymateb tendro. Ni fydd y rhwymedigaethau cyfrinachedd hyn yn gymwys i ddogfennau sydd eisoes yn y parth cyhoeddus ar yr adeg y cânt eu datgelu neu eu gwneud ar gael gan S4C.

Drwy gyflwyno ymateb i'r tendr hwn, mae Dendrwyr yn cytuno i beidio â chyhoeddi, ac i sicrhau nad yw eu cyflogeion yn cyhoeddi, unrhyw gyhoeddusrwydd o unrhyw fath (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hysbysiadau drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook neu Twitter neu fel arall) ynghylch pwnc y tendr hwn neu unrhyw benderfyniad gan S4C mewn perthynas ag unrhyw elfen o'r tendr hwn, oni bai bod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw ar gyfer cyfathrebiad o'r fath.

### 6.8 Ymwadiad

Nid yw S4C yn rhoi unrhyw warant na chynrychiolaeth ynghylch cyflawnrwydd neu gywirdeb unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y Gwahoddiad i Dendro hwn, ac mae unrhyw ddibyniaeth a roddir ar wybodaeth o'r fath ar eich menter eich hun.

### 6.9 Costau Tendro

Bydd pob Tendrwr yn gyfrifol am ei gostau a'i dreuliau ei hun a dynnir mewn cysylltiad â'r broses dendro hon. Ni fydd S4C, o dan unrhyw amgylchiadau, yn cyfrannu at unrhyw gostau na threuliau o'r fath.

### 6.10 Diwygiadau i Ddogfennau'r Tendr

Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i ddogfennau'r tendr cyn y dyddiad cau a nodir yn Rhan 4.1 uchod. Er mwyn caniatáu amser i unrhyw ddiwygiad o'r fath gael ei ystyried, gall S4C, yn ôl ei ddisgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

### 6.11 Hawlfraint

Mae S4C yn berchen ar hawlfraint y Gwahoddiad i Dendro hwn ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a wneir ar gael gan S4C. Ni chaniateir i Dendrwyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio na chyhoeddi copïau o'r Gwahoddiad i Dendro hwn nac o ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt), heblaw ac i'r graddau y bo'n gwbl angenrheidiol ar gyfer paratoi a chyflwyno eu hymatebion tendro.

### 6.12 Dim Cydgynllwynio

Drwy gyflwyno ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn, mae pob Tendrwr yn ardystio:

1. bod yr ymateb tendro yn ddilys ac wedi'i fwriadu i fod yn gystadleuol;

2. nad yw'r Tendrwr wedi gosod na haddasu'r ymateb drwy, o dan neu yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant ag unrhyw berson arall (ac eithrio, yn achos consortiwm, aelodau eraill y consortiwm), nac wedi mynnu bod unrhyw Dendrwr arall yn gwneud hynny; ac

3. nad yw'r Tendrwr wedi cyfathrebu ag unrhyw berson heblaw S4C swm neu gyllideb fras neu bris yr ymateb tendro, ac eithrio pan oedd datgelu o'r fath, yn gyfrinachol, yn angenrheidiol er mwyn cael premiwm yswiriant neu ddyfynbrisiau eraill sy'n ofynnol ar gyfer paratoi'r tendr.

### 6.13 Ymddygiad Anaddas

Os bydd Dendrwr neu gynghorydd penodedig i Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu'n amhriodol ar y broses dendro hon neu ar ddyfarnu'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, gall S4C ddiarddel ymateb tendro'r Tendrwr hwnnw, yn ôl disgresiwn llwyr S4C. Gall unrhyw ymgais uniongyrchol neu anuniongyrchol gan Dendrwr neu gynghorydd penodedig i Dendrwr i ganfasio mewn cysylltiad â'r caffael hwn neu i gael gwybodaeth

